

Yng Nghysgod Pantycelyn

*Ar gychwyn y Gymanfa Gyffredinol a gynhaliwyd yn Eglwys y Crwys, Caerdydd daeth cynulleidfa ddisgwyllgar ynghyd ar 2 Gorffennaf i wyllo Cwmni Theatr y Crwys yn cyflwyno "Y Pererin". A dyma holi gweinidog y Crwys, y **Parch Aled Huw Thomas** am ychydig o hanes y cyflwyniad.*

Mae hanes Cymdeithas Ddrama'r Crwys, fel y gelwid hi, yn mynd yn ôl i ddau ddegau'r ganrif ddiwethaf pryd y sefydlwyd hi fel un o gymdeithasau Capel Heol y Crwys yng Nghaerdydd. Llwyfannwyd dramâu o waith Cynan a Saunders Lewis, megis Amlin ag Amig ac Esther.

Bellach dyma'r unig gwmni amatur sydd yn llwyfannu yn y brifddinas ac efallai'r unig un yn y de ddwyrain. Mae'r Cwmni bellach dan ddwylo medrus Betsan Evans a Robin Pryderi Owen.

Addaswyd rhan o adeilad capel y Crwys yn Richmond Road yn theatr fechan gyda lle i bedwar ugain o gynulleidfa. Mae'n adnodd sy'n cael ei defnyddio gan yr



Eglwys y Crwys

eglwys a'r gymuned ehangach. Gydag agoriad Theatr y Crwys fe ail enwyd Cymdeithas Ddrama'r Crwys yn Gwmni Theatr y Crwys.

Mae'r cwmni wedi bod yn cystadlu yn rheolaidd hyd yn ddiweddar gan gael llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Mae eu cynrychiadau yn amrywio o'r llon i'r lleddf, gyda chomedïau, pantomeimiau a dramâu crefyddol eu naw. Mae'n llwyfannu dau gynhyrchiad y flwyddyn yn ogystal â chyfrannu at addoliad Eglwys y Crwys drwy gynrychiadau achlysurol, er enghraifft, adeg y Nadolig.

Eleni yn y Gymanfa Gyffredinol, ar gais y cyn lywydd bellach, Yr Athro John Gwynfor Jones, llwyfannwyd detholiad o ddrama Norah Isaac, "Y Pererin", sef drama deyrnged i ddatlu tri chan mlynedd geni'r emynydd William Williams Chwaraewyd rhan Williams ei hun gan gyn-Weinidog y Crwys, Y Parch Glyn Tudwal Jones, gydag Ysgrifennydd y Crwys, Mr Bob Roberts. Gwnaethpwyd defnydd celfydd o gyfryngau trydanol i osod cefndir a chyd-destun i'r cyflwyniad gan Robin Pryderi Owen, un o flaenoriaid y Crwys. Er i'r ddrama gael ei thalfyrru ni chollwyd dim o'naws ac emosiwn y cynhyrchiad gyda'r geiriau a'r canu yn



Ffenest Liw Pantycelyn yn Eglwys y Crwys

plethu i'w gilydd yn hwylus. Ar nos Sul y Gymanfa eleni, mwynhawyd gwledd o gyflwyniad – cynhyrchiad y dylid ei ail llwyfannu yn sgil y llwyddiant. Diolch mawr a llongyfarchion i Gwmni Theatr y Crwys.

Pwy yw Llywydd newydd y Gymanfa Gyffredinol?

Yn ystod y Gymanfa Gyffredinol a gynhaliwyd yng Nghaerdydd yn ddiweddar sefydlwyd y Parch Brian Huw Jones fel Llywydd newydd y Gymanfa Gyffredinol. Dyma felly fanteisio ar y cyfle i'w holi am ei hynt a'i hanes.

Gol. Gad i mi ddechrau trwy dy longyfarch ar dy ethol i fod yn Llywydd y Gymanfa Gyffredinol am y flwyddyn nesaf. Diolch am dy barodrwydd i rannu ychydig o dy hanes gyda darllenwyr y Goleuad. Dywed ryw ychydig am dy gefndir wrthym.

BHJ. Diolch am y cyfle am sgwrs. Dwi'n enedigol o Gaernarfon ac fe gefais fy addysgu yn Ysgol Syr Huw Owen a Choleg y Drindod, Caerfyrddin. Roeddwn yn addoli yng nghapel Beulah, Caernarfon lle'r oedd fy niweddar rieni yn aelodau ffyddlon a gweithgar. Roedd fy

nhad yn flaenor a thrysorydd yr Eglwys a Henaduriaeth Arfon a chefais innau fy nghodi yn flaenor yno.

Gol. Dwi'n gweld felly bod byd addysg wedi dy ddenu ar y cychwyn, ond a fentraist ti i fydd addysg o gwbl, neu aethost ti'n syth oddi yno i'r weinidogaeth?

BHJ. Do, fe fûm i'n athro Cymraeg yn Ysgol Uwchradd Caerdybi cyn cael fy mhenodi yn Swyddog Ieuenctid EBC a rheolwr Coleg y Bala. Ac yna wnes i

(parhad ar dudalen 2)



Dathlu Cyfraniad Cenhades yn yr Wyddgrug

Yng nghapel Bethesda'r Wyddgrug y cawsom gyfeisteddfod o ferched yr Henaduriaeth eleni ar brynhawn Dydd Llun 12 Mehefin. Roedd y cyfarfod yn un hapus ac ysbrydoledig o'r dechrau cyntaf. Cawsom groeso cynnes a siriol gan y llywydd Mrs Marion Simkin, a defosiwn teimladwy gyda darlleniad pwrpasol o lythyr Paul at y Corinthiaid gan Mrs Doli Edwards a gweddi gan y Parch Eirlys Gruffydd-Evans. Roedd y canu yn galonnog o dan arweiniad yr organyddes alluog Mrs Glenys Lightfoot. Daeth nifer go lew at ei gilydd gyda chynrychiolaeth o bron bob dosbarth, ond nid pob capel chwaith! Roedd yn gyfle i ddathlu a gwerthfawrogi gwaith Dr Gwyneth P. Roberts, y cenhades ddawnus ac ymroddedig o Brestatyn a aeth gyntaf i'r India yn 1943. Roedd y siaradwraig Mrs Nerys Biddulph yn gyfaill agos i Dr Gwyneth ac wedi mwynhau ei chwmmi ym mlynnyddoedd ymddeoliad Dr Gwyneth. Roedd yn ei hedmygu am ei hymroddiad, ei dawn a'i gwrhydri yn ei gwaith am dros fwy na chwarter ganrif yn yr India. Bu ei gwasanaeth cenhadol yn syfrdanol a hynny mewn byd gwahanol lle nad oedd merched yn arfer rheoli. Ond dyna beth wnaeth Dr Gwyneth o ddechrau cyntaf ei chenhadaeth yn Durtlang – rheoli a datblygu'r ysbty, adeiladu system carthffosiaeth ac addasu'r ystafelloedd. Hi hefyd oedd yn hyfforddi nyrsys a hi oedd yr unig lawfeddyg llawn amser yn yr ysbty. Yr hanes anhygoel o'i hymdrechion a'i haberth oedd wedi cyffwrdd calon Mrs Biddulph a llwyddodd i ddatgan i ni ei theimladau a'i moliant i Dduw am fywyd Gwyneth mewn ffordd ddymunol a diddorol. Diolch yn fawr Nerys am



O'r chwith, Mrs Ceinwen Parry, Mrs Menna Davies, Mrs Marion Simkin, Parch Eirlys Gruffydd-Evans, Parch Eleri Edwards, Mrs Anne Hunt.

brynhawn bythgofiadwy. Cawsom hefyd adroddiad byr o bob dosbarth am waith y chwiorydd. Roedd yn dda i weld ein bod i gyd yn gweithio ar hyd yr un llinellau. Dangoswyd ein ffydd Gristnogol mewn dull ymarferol gyda gwaith gwnïo a gwau a fydd o gymorth i'r rhai llai ffodus na ni. Roedd yn orig arbennig iawn a chawsom de ardderchog i gloi'r cyfeisteddiad fel y gwelwch yn y llun. Diolch i bawb a drefnodd oedfa mor llwyddiannus. Diolch i Dduw am ei alwad i bawb ohonom ac am arwyr fel Dr Gwyneth.

Eleri Edwards

Pwy yw Llywydd newydd y Gymanfa Gyffredinol (parhad o dudalen 1)

ddilyn dwy flynedd yn y Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth cyn derbyn galwad i weinidogaethu saith eglwys yn Henaduriaeth Dwyrain Meirionnydd.

GoI. Ond nid yn yr eglwys yna wyt ti erbyn hyn?

BHJ. Na, wedi tua phum mlynedd hapus yno derbynais i alwad i Henaduriaeth Dyffryn Clwyd yn 2003 yn fugail ar 5 eglwys (Nasareth, Bethel, Ebeneser, Salem a Rehoboth). Ychwanegwyd Bethel, Afonwen yn 2005 ac yna Clwyd St., a Bethlehem Unedig yn 2010.

GoI. Dywed air bach wrthym am dy deulu.

BHJ. Dwi'n briod â Helena sy'n llyfrgellwraig yn Ysgol Glan Clwyd a mae gennym ddau o blant. Mae Siôn yn athro yn Ysgol y Lllys, Prestatyn a Heledd sy'n gyfieithydd gyda Chyngor Sir Conwy. Mae gennym un ŵyr sef Jac, sy'n bedair oed.

GoI. Mae pawb sy'n dy adnabod yn gwybod dy fod ti wedi cyfrannu'n

helaeth i fywyd y Cyfundeb dros y blynyddoedd.

BHJ. Ymhlith nifer o gyfrifoldebau, ac yn ychwanegol at fy ngwaith fel gweinidog yn fy ngofalaeth, dwi wedi gwasanaethu'r Cyfundeb fel ysgrifennydd Adran Ymgeiswyr a Hyfforddiant ac yn gofnodydd y Gymanfa am nifer o flynyddoedd. Dwi hefyd wedi bod yn Llywydd ac yn Ysgrifennydd Cymdeithasfa'r Gogledd a Llywydd dwy Henaduriaeth.

GoI. Mae clywed am gymaint o weithgarwch yn ddigon i wangeloni nifer ohonom! Ond os nad ydy o'n gwestiwn ffôl, tybed oes gen ti amser ar gyfer unrhyf ddiorddebau hamdden?

BHJ. Wel, mae gen i ddiddordeb ym mhêl-droed – ac roeddwn yn ddyfarnwr am nifer o flynyddoedd...

GoI. ...Profiad, mae'n siŵr, fydd yn help i gadw trefn ar gyfarfodydd y Gymanfa!

BHJ. Efallai yn wir... Ond yn ychwanegol

at hynny dwi'n hoffi cyfrannu i'n bywyd cenedlaethol trwy'r Eisteddfod Genedlaethol. Dwi'n aelod o'r Orsedd ers 1980 ac wedi bod yn ddirprwy brif Stiward...

GoI. Wel, dyma hyd yn oed fwy o brofiad fydd yn dy helpu i'n cadw mewn trefn!

BHJ. ... Dwi wedi bod yn Gadeirydd Llywodraethwr y Lllys ers 2004, yn aelod o CYSAG Sir Ddinbych, ac yn drysorydd dwy gangen Cytûn lleol. Rwyf yn hoff o ddarllen ac i ymlacio yn darllen llyfrau ditectif o bob math. Braint hefyd ydy cael bod yn aelod o Glwb Rotari Prestatyn lle dwi wedi cael y cyfle i drefnu cystadlaethau siarad Cyhoeddus a chorau ar gyfer ysgolion cynradd.

GoI. Mae'n arferiad i Lywydd y Gymanfa Gyffredinol osod thema neu adnod sy'n ffocws i'w weledigaeth a chyfeiriad i'r Cyfundeb drwy'r flwyddyn. I ba gyfeiriad fyddet ti am ein harwain?

BHJ. Dwi 'di dewis dwy adnod yn thema ar gyfer y flwyddyn. Y cyntaf yw gwahoddiad Crist, "Dilyn di fi" wedi eu cyplysu gyda geiriau Eiseia, "Dyma fi, Anfon fi." Dwi'n gobeithio medru ymweld â phob Henaduriaeth i ddiolch ac i annog ein pobl ac i'n hatgoffa fod gennym neges o obaith a chariad i'w chyhoeddi.

GoI. Diolch am godi'r llen a'n galluogi i gael adnabod ryw ychydig ar ein Llywydd newydd. Tybed a fyddai gennyf ryw air, wrth gloi, i annog ein darllenwyr?

BHJ. Wel oes, fel mae'n digwydd! Mae un yn gais a'r ail yn anogaeth. Yn gyntaf, gofynnaf i'n holl aelodau am eich gweddiâu a'ch cydweithrediad. Ac yn ail, gadewch i ni fynd ymlaen yn hyderus ac yn ffyddiog gyda'n gilydd gan ddarganfod ewyllys Duw ar ein cyfer fel unigolion ac fel eglwys.

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU

Hyrwyddwr Strategaeth a Gweinidogaeth

Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn edrych i sicrhau gweithiwr i ardal cylch Tawe-Nedd..

Oriau – 35 awr yr wythnos.

Cytundeb – 3 blynedd, gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf.

Cyflog – Graddfa 26-30, ynghyd â lwfans tŷ a chyfle i ymuno a Chynllun Pensiwn EBC.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol. I gael disgrifiad swydd a ffurflen gais, cysylltwch â'r swyddfa. Rhif ffôn: 02920 627465.

Mae'n ofyniad galwedigaethol bod ymgeiswyr ar gyfer y swydd hon yn medru siarad Cymraeg ac yn Gristion.

Dyddiad Cau: 4 o'r gloch, Dydd Gwener, Goffennaf 21, 2017.

